# Mae Llenyddiaeth Cymru yn chwilio am unigolyn deinamig sydd â gweledigaeth i arwain y sefydliad fel Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Gwirfoddol, tymor gwasanaeth o dair blynedd i ddechrau








**Dyddiad cau: 9 Ebrill 2021**
**Cyfweliadau: 19/20 Ebrill 2021**
**I gychwyn: Mai 2021**

**Mae Llenyddiaeth Cymru, y cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth, yn chwilio am Gadeirydd newydd i arwain y sefydliad i'w gyfnod nesaf.**

Yn y cyfnod rhyfeddol hwn o her a newid, rydyn ni'n chwilio am unigolyn deinamig, ymroddedig sydd â gweledigaeth, a all arwain y sefydliad wrth i ni barhau i ail-ddychmygu a siapio ein tirlun llenyddol cyfoes, gan gadw'n driw at ein cenhadaeth a'n gwerthoedd. Mae gan bob un ohonon ni straeon i'w hadrodd – ac mae llenyddiaeth, fel un o'n ffurfiau hynaf ar gelfyddyd, yn dal i ysbrydoli a difyrru yn ei holl amrywiaeth.

Ers ei sefydlu yn 2011, mae Llenyddiaeth Cymru wedi ymateb i lu o heriau sy'n effeithio ar ein cymdeithas, ac yn fwy diweddar i'r ffordd mae'r pandemig byd-eang wedi effeithio ar ein cleientiaid a'n cynulleidfaoedd, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Fel sefydliad sy'n dysgu, yn myfyrio, ac yn croesawu newid, rydyn ni wedi trawsnewid ein ffordd o weithio, gan ganolbwyntio ar sut gall llenyddiaeth wella bywydau pob un ohonon ni yn y Gymru fodern, fywiog rydyn ni i gyd yn rhan ohoni.

Mae ein diwylliant llenyddol yn gwneud cyfraniad enfawr i'n lles, gan roi llais i'r rhai sydd heb eu clywed ac ysbrydoli myfyrdod personol a thrafodaeth genedlaethol. Drwy ein systemau monitro a gwerthuso, a drwy gasglu tystiolaeth am effaith hirdymor, rydyn ni'n gwybod bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn Llenyddiaeth Cymru – wedi'i gyd-greu a'i gyd-gyflwyno gydag awduron, darllenwyr a chymunedau – yn helpu i wneud Cymru a'r byd yn lle gwell.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o rym llenyddiaeth i wella a thrawsnewid bywydau, a'r angen i ganolbwyntio ein gweithgareddau lle byddan nhw'n cael yr effaith fwyaf, rydyn ni wedi nodi tair Blaenoriaeth Dactegol fydd yn sail i'n holl waith:

### Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb

Byddwn yn annog ac yn rhoi llwyfannau i leisiau llenyddol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn gweithio er mwyn creu diwylliant llenyddol cenedlaethol sy'n cynrychioli'r Gymru gyfoes.

### Iechyd a Llesiant

Byddwn yn cefnogi ac yn eiriol dros y ffyrdd y gall llenyddiaeth gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles y genedl, a byddwn yn helpu i wella bywydau pobl Cymru.

### Plant a Phobl Ifanc

Mae gallu cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol a darllen er pleser yn hawl i bawb, a byddwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at les cenedlaethau'r dyfodol.

Rydyn ni'n agored i syniadau a dulliau newydd o weithio ar ein Bwrdd – ac mae ein hawduron, ein cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr yn ganolog i'n meddylfryd. Rydyn ni am sicrhau amrywiaeth cynyddol ymhlith ein cynulleidfaoedd ac am ddod o hyd i ffyrdd o gyrraedd a meithrin lleisiau a doniau newydd er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a gwell cynrychiolaeth mewn llenyddiaeth. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl o ystod o gefndiroedd a phrofiadau. Does dim angen i chi fod yn awdur neu'n arbenigwr llenyddol. Pwysicach na hynny yw eich ymrwymiad a'ch angerdd am ein gwerthoedd a'n cenhadaeth o rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Rydyn ni'n chwilio am eiriolwyr cryf sy'n rhannu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad ac fydd yn gweithio gyda'u cyd-Gyfarwyddwyr a'r staff i sicrhau safonau uchel o lywodraethiant, tryloywder a hygyrchedd.

Bydd ein Cadeirydd presennol, yr academydd a'r bardd Kate North, yn camu i lawr ym mis Mai 2021 ar ôl gwasanaethu am y cyfnod penodedig a nodir yn Erthyglau Cymdeithasu Llenyddiaeth Cymru. Bydd y Cadeirydd newydd yn arwain y cwmni i'w ail ddegawd ac yn mynd ati i siapio dyfodol y sefydliad ar adeg o gynnwrf a newid parhaus yn fyd-eang. Dyma gyfle cyffrous i ymuno â'r sefydliad wrth i ni ddatblygu cynllun strategol pedair blynedd newydd ar gyfer 2022 ymlaen a pharatoi ar gyfer adolygiad buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, gan adeiladu ar gryfder a llwyddiant Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-22.

Bydd ein Blaenoriaethau Tactegol yn flaenllaw yn ein gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac yn hynny o beth rydyn ni'n awyddus iawn i annog ceisiadau gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector llenyddiaeth, a gan y rhai sy'n profi gwahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran. Rydyn ni'n ymroddedig i fodloni gofynion mynediad; rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.







**Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth.**
**Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau.**
**Ein nod yw ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru.**

Rydyn ni'n aelod o Bortffolio Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn un o wyth Cwmni Cenedlaethol sydd hefyd yn cynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Ffilm Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales, Canolfan Mileniwm Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ledled Cymru. Mae gennym swyddfeydd yn Llanystumdwy ac yng Nghaerdydd. Ein noddwr yw Syr Philip Pullman.







# Y Rôl



Fel Cadeirydd, bydd y potensial gennych i ddod yn arweinydd eithriadol ac i ddarparu gweledigaeth ac arweiniad i'r sefydliad. Byddwch yn ysbrydoli Cyfarwyddwyr eraill a'r staff i sicrhau bod y sefydliad yn dal i arwain y sector, i ffynnu ac i ddatblygu ymhellach.

Fel Cadeirydd, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ac yn arweinydd symbolaidd i'r sefydliad, gan eiriol dros ei genhadaeth a'i werthoedd ar y lefelau uchaf. Fel prif lefarydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, byddwch yn gweithredu fel ei gynrychiolydd mewn digwyddiadau allanol ac yn y cyfryngau.

Ymhlith y prif ddyletswyddau, mae:

- Rheoli, gwerthuso a chefnogi'r Prif Weithredwr
- Gweithio gyda staff allweddol i sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol ac elusennol
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu fel tîm effeithiol ac yn rhoi her gadarnhaol i'r Swyddogion
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gosod strategaeth y cwmni ac yn ei hadolygu'n rheolaidd
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i gynrychioli'r cwmni gyda rhanddeiliaid allanol a datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau'r sefydliad

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae disgwyl i'r Cyfarwyddwyr gyfrannu at waith strategol ychwanegol ar sail gorchwyl a gorffen, yn ôl yr angen. Bydd gofyn i'r Cadeirydd hefyd fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr; cyfarfodydd lefel uchel gyda rhanddeiliaid a chyllidwyr ar brydiau; a chynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau cyhoeddus. Mae angen ymrwymiad amser o ryw 25 diwrnod y flwyddyn.







# Ffi a Hygyrchedd



Nid yw'r Cadeirydd na Chyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli yn cael cyflog, gan mai swydd sy'n cael ei chyflawni'n wirfoddol yw hon. Fodd bynnag, gall y Cyfarwyddwyr hawlio treuliau rhesymol wrth gyflawni busnes yr elusen.

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Bwrdd Rheoli amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyfranogi. Deellir bod swydd Cyfarwyddwyr yn ymrwymiad sylweddol, a gellir darparu cymorth i unigolion drwy dalu costau gofal plant a gofal arall ac unrhyw gostau rhesymol eraill sy'n codi fel rhan o ddyletswyddau'r Cyfarwyddwyr.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn credu na ddylai cyfyngiadau ariannol atal pobl rhag dod yn Gyfarwyddwyr. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai Cyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru ystyried digolledu Cyfarwyddwr arall am golli enillion oherwydd yr amser a dreulir yn cyflawni eu busnes fel Cyfarwyddwr. Byddai angen i unrhyw gytundeb o'r fath gydymffurfio â'r Polisi Taliadau Ymddiriedolwyr a byddai'n amodol ar gael cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau. Os ydych yn ansicr a fyddech yn gallu ymrwymo'r amser sydd ei angen i weithredu fel Cyfarwyddwr am resymau ariannol, cysylltwch â ni i drafod unrhyw bryderon sydd gennych.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector llenyddiaeth, a gan y rhai sy'n profi gwahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran. Rydyn ni'n ymroddedig i fodloni gofynion mynediad; rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.







# Sut i ymgeisio



Darllenwch y wybodaeth yn y pecyn recriwtio hwn yn ofalus. Hefyd, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru ar gyfer 2019-2022 yma a'n Hadroddiad Canol Tymor ar gyfer 2019-2022. Ysgrifennwch lythyr cais o ddim mwy na thair tudalen o A4 neu lluniwch gais fideo o ddim mwy na phum munud (mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal).

Dylai eich llythyr/fideo gynnwys eich enw, cyfeiriad post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

Rhowch wybod i ni:


- Pam mae gennych ddiddordeb yn swydd y Cadeirydd
- Manylion eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad a sut y byddent yn berthnasol i waith Llenyddiaeth Cymru
- Manylion tri llwyddiant proffesiynol a'r rhesymau rydych chi'n falch ohonynt
- Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r swydd rydych chi'n ymgeisio amdani

Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org erbyn 5.00 pm ar 9 Ebrill 2021:

- Eich llythyr cais neu fideo
- Eich CV (o ddim mwy na thair tudalen A4), gan gynnwys manylion dau ganolwr
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru wedi'i chwblhau (ar gael yma)







## Camau nesaf



**Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweliad digidol ar 19 neu 20 Ebrill 2021. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o Fwrdd Cyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru, aelodau o staff, a chynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl neu os hoffech gael sgwrs gychwynnol, cysylltwch â ni drwy post@llenyddiaethcymru.org





Mae Llenyddiaeth Cymru wedi elwa o fod yn rhan o Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i ehangu eu dull o weithio o ran recriwtio a datblygu doniau amrywiol. Rydyn ni wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail cryfderau posib. Os hoffech wneud cais am y swydd hon ond eich bod yn ansicr a oes gennych brofiad digonol, cysylltwch â ni i gael sgwrs anffurfiol.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.





